| **Corff Llywodraethol YSGOL GYNRADD GATHOLIG Y SANTES FAIR, Bufferland, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6PD** | **The Governing Body of St MARY'S CATHOLIC PRIMARY SCHOOL, Bufferland, Pembroke Dock, Pembrokeshire, SA72 6PD** |
|---|---|
| Rhybuddir yn unol ag adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Gorffennaf 2013) bod Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholic y Santes Fair, fel y cynigydd, ar ôl ymgynghori â'r personau angenrheidiol, yn bwriadu gweithredu'r cynnig canlynol: | Notice is given in accordance with section 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code (July 2013) that the governing body of St Mary's Catholic Primary School as the proposer, having consulted such persons as required, proposes to implement the following proposal: |
| **Bod Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Bufferland, Doc Penfro, SA72 6PD, sef ysgol a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Penfro, yn dod i ben ar 26 Ebrill 2019. Mae gan yr ysgol hon gymeriad crefyddol ac addysgir ei disgyblion yn ol athrawiaeth yr Eglwys Gatholig. Esgobaeth Menefia yw'r corff crefyddol priodol.** | **That St Mary's Catholic Primary School, Bufferland, Pembroke Dock, SA72 6PD, a school maintained by Pembrokeshire County Council, be discontinued on 26th April 2019. This school has a religious character and pupils are taught according to the doctrines of the Catholic Church. The Diocese of Menevia is the appropriate religious body.** |
| Ar ran y cynigydd, ymgymerodd Cyngor Sir Penfro â chyfnod o ymgynghori cyn i'r Corff Lywodraethu benderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigydd a barn Estyn wedi ei ystyried gan Gorff Lywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac mae ar gael yn yr ysgol ac ar wefannau y Cyngor a'r Esgobaeth: (www.pembrokeshire.gov.uk) a (www.menevia.org). | On behalf of the proposer, Pembrokeshire County Council undertook a period of consultation before the governing body decided to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn was considered by the governing body of St Mary's Catholic Primary School and is available at the school and on both the Council's and Diocese's websites (www.pembrokeshire.gov.uk) and (www.menevia.org). |
| Bydd modd i rieni a fyddai fel arall wedi mynegi ffafriaeth i'w plant mynychu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair am resymau crefyddol neu eraill, mynegi ffafriaeth am unrhyw ysgol arall. Yr ysgolion canlynol yw'r rhai sydd yn debygol o dderbyn disgyblion fydd wedi'i dadleoli: Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis (Aberdaugleddau), Ysgol Gynradd Gatholig Sant Teilo (Dinbych y Pysgod), Ysgol Gymunedol Doc Penfro, Ysgol Gymunedol Pennar, Ysgol Gynradd Monkton Priory, Ysgol Gynradd Gelli Aur / Golden Grove (Penfro) neu Ysgol y Penrhyn (Hundleton). Mae digon o leoedd ar gael yn yr ysgolion uchod ar gyfer disgyblion fydd wedi'u dadleoli.<br><br>Categori iaith pob un o'r ysgolion uchod yw Cyfrwng Saesneg neu Dau Ffrwd.<br><br>Bydd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr awdurdod o ddyddiad gweithredu'r cynnig, h.y. i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd yr oedran ysgol statudol. Mewn perthynas a phlant sy'n weddill ar gofrestr Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ar y dyddiad gweithredu, ac y mae eu rhieni wedi mynegi dewis i barhau i dderbyn addysg sy'n seiliedig ar y ffydd Gatholig, bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol yn | Parents who would have otherwise expressed a preference for their children to attend St Mary's Catholic Primary School for faith reasons or otherwise, may express a preference for any alternative school. Those schools identified as being most likely to receive displaced pupils are as follows: St Francis Catholic Primary School (Milford Haven), St Teilo's Catholic Primary School (Tenby), Pembroke Dock Community School, Pennar Community School, Monkton Priory CP School, Ysgol Gelli Aur/Golden Grove CP School (Pembroke) or Penrhyn VC School (Hundleton). There are sufficient places available in the above schools to accommodate displaced pupils.<br><br>The language category of all of the above schools is English Medium or Dual Stream.<br><br>Home to School Transport for displaced pupils will be provided in accordance with the Authority's Home to School Transport Policy as at the date of the implementation of the proposal, i.e. to pupils who have reached statutory school age. In relation to children remaining on roll at St Mary's Catholic Primary School at the implementation date and whose parents have expressed a preference to continue to receive a Catholic faith-based education, |

cael ei ddarparu i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis yn Aberdaugleddau hyd nes y bydd y plant yn cyrraedd diwedd darpariaeth yr ysgol gynradd. Bydd ceisiadau am gludiant i ysgolion Catholig eraill Sir Benfro yn cael eu hystyried fesul achos.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 5 Chwefror 2019, gall unrhyw berson fynegi gwrthwynebiad i'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau i: Y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP neu e-bostiwch: educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a wneir (nas tynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, yn ogystal a'i sylwadau, o fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Arwyddwyd:



BARBARA THOMAS
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

Dyddiad:
8 Ionawr 2019

**Nodyn Esboniadol:**
**(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Rhybudd ond fe'i cynigir fel eglurhad)**

1. Mae corff llywodraethol Ysgol y Santes Fair yn cynnig cau'r ysgol ar ddiwedd tymor y gwanwyn 2019 (26 Ebrill 2019). Bydd yr ysgol yn cwpla fel ysgol gweithredol ar 12 Ebrill 2019.
2. Wrth wneud ei benderfyniad i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn, mae'r corff llywodraethol wedi ymrwymo rhoi cymorth i rieni plant sy'n weddill yn yr ysgol er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i ddarpariaeth ysgol arall.
3. Mewn perthynas a rhieni plant ar y gofrestr yn Ysgol Gatholig y Santes Fair sy'n dymuno i'w plant barhau i dderbyn darpariaeth ysgol gynradd y ffydd Gatholig, bydd Cyngor Sir Penfro yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn rhad ac am ddim i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis hyd nes i'r plant hynny gyrraedd diwedd eu gyrfa addysg cynradd. Bydd ceisiadau am gludiant ysgol gan rieni sy'n dymuno mynychu ysgolion cynradd Catholig eraill yn Sir Benfro yn cael eu hystyried fesul achos.

Home to School Transport will be provided to St Francis Catholic Primary School in Milford Haven until such time as the children reach the end of primary school provision. Requests for transport to other Pembrokeshire Catholic schools will be considered on an individual basis.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 5th February 2019, any person may object to the proposals.
Objections should be sent to: The Director for Children & Schools, County Hall, Haverfordwest, SA61 1TP or email: educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

St Mary's Catholic Primary School will publish a summary of any such objections made (and not withdrawn in writing) within the objection period, together with its observations thereon, within the period of 28 days after the end of the objection period.

Signed:



BARBARA THOMAS
Chair of Governing Body
St Mary's Catholic Primary School

Dated:
8th January 2019

**Explanatory Note:**
**(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)**

1. The governing body of St Mary's Catholic Primary School proposes to close the school at the end of the Spring Term 2019 (26th April 2019). The 12th April 2019 will be the last operational day.
2. In making its decision to proceed to publish this statutory notice, the governing body has given its commitment to provide support to parents of children remaining at the school in order to ensure a smooth transition to alternative school provision.
3. In relation to parents of children on roll at St Mary's Catholic Primary School who wish their children to continue to receive primary school provision of the Catholic faith, Pembrokeshire County Council will provide free home to school transport to St Francis Catholic Primary School until such time as those children reach the end of primary school provision. Applications for school transport from parents of children wishing to attend other Catholic primary schools in Pembrokeshire will be considered on a case by case basis.